## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2026**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Gwilym O. Jones – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, , Siân Enfys Jones, Gordon Owen, W. Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Einir Thomas
2. **Datganiad o ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol:
   Cynghorwyr Gwilym O. Jones a Gordon Owen eitem 4.2 Neuadd Bentref Caergeiliog.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
   Derbyniwyd cofnodion 19 Mai 2026 fel rhai cywir. (cyn. Clrr. G. Thomas, eilio. Cyng. W.V. Owen).

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Dim byd pellach i'w adrodd.

4.2 Neuadd y Pentref:-. Yn dilyn cyfarfod o gynrychiolwyr y neuadd cyflwynwyd y ffioedd canlynol i'w cymeradwyo: Partïon plant £25 gyda £5 ychwanegol am gastell bownsio, te angladd £30, rhywun yn archebu hanner diwrnod £30, Y Rhwyd a Chlwb y Pentan £10 (cyfradd consesiynol), etholiadau £180, busnesau neu unrhyw sefydliad sy'n gwneud elw £40 am archeb am phob hanner diwrnod neu gyda'r nos. Cytunwyd i dderbyn y ffioedd a argymhellir.
Roedd y clerc hefyd wedi cwrdd â pheintiwr a chynrychiolwyr o gwmniau Ffenestri Cymru a Ffenestri M&G, byddent yn anfon eu dyfynbrisiau yn fuan.
Roedd Cyng. Gareth Thomas wedi trwsio'r blwch allweddi a rhoi olew ar y cloeon gan eu bod yn dod yn anodd eu hagor. Nodwyd fod Mr Wharton wedi dechrau clirio'r mieri a'r eiddew o gwmpas yr adeilad.

4.3 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

5. **Cynllunio** - dim
6. **Materion Ariannol**
   Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.5. 2026 i 31.5.2026 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
   Cyfrif Cyfredol £29713.48, Cyfrif Cadw £4163.93.

6.1 Cyfrifon 2024/25 – Archwiliad wedi ei gwblhau
Yn dilyn archwiliad llawn o gyfrifon 2024/25, nodwyd bod yr Archwilwyr Allanol wedi cymeradwyo'r cyfrifon terfynol ac wedi cyhoeddi adroddiad diamod heb unrhyw broblemau yn codi. Argymhellwyd y byddai'r Cyngor yn elwa o gael gweledigaeth glir ar gyfer ei gymuned sydd wedi'i datblygu mewn partneriaeth / ymgynghori â phob rhan o'r gymuned. Cytuno i gynnal sesiynau galw heibio yn ystod y flwyddyn i ddod.

6.2 Roedd cyfrifon terfynol 2025.26 gyda'r archwilydd mewnol - cytunwyd i gwrdd i drafod ei adroddiad cyn 30 Mehefin 2026.

6.2 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clerc | 364.19 | Torri  llwybrau | 396 |
| Scottish Power | 126.17 | Torri Glaswellt | 200 |
| Vision ICT Ltd | 209.45 | R Gordon Roberts Laurie & Co | 314.80 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Adolygiad Map Rhwydwaith Teithio Llesol Ynys Môn 2026 - Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol

**8. Hyfforddiant –** atgoffwyd aelodau am y lleoedd am ddim sydd ar gael gan Un Llais Cymru.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cyng. Celfyn Furlong
Gofynnodd am ddiweddariad ar lanhau'r llochesi fysiau – roedd y gwaith wedi dechrau gyda'r lloches ar gyffordd yr A55 (yr un gyda'r mwyaf o waith) ac roedd y contractwr yn gweithio ei ffordd o'u cwmpas.

9.2 Cyng. William Victor Owen:
Mynegodd bryderon fod yr arwydd 20mya yn rhy agos i'r gyffordd wrth  y Turnpike a nodwyd nad oedd arwyddo pob ochr i'r ffordd – gofynnwyd i'r clerc holi os oedd modd ei symud.

9.3 Cyng. Sharon Parry
Mynegodd bryderon eto am y biniau coll yn Llanfair yn Neubwll – nodwyd fod CSYM wedi symud un o'r lle glas wrth yr Eglwys oherwydd ei fod yn cael ei gam-drin ond nid oedd cofnod ganddynt Cyng. o'r llall – byddai'r clerc yn gofyn am hyn eto.

9.4 Cyng. Gareth Thomas
Dywedodd fod arwydd newydd Lon Cymyran wedi ei osod  a bod olion y wal oedd wedi syrthio wedi ei symud.

**10. Cyfarfod Nesaf - 21 Gorffennaf 2026**